

# Gwerthusiad o Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam (Y Gronfa Ffyniant Gyffredin)

Adroddiad i Cadwyn Clwyd

Chwefror 2024

# Cynnwys

---

## Crynodeb Gweithredol

---

1.	Cyflwyniad a methodoleg	1
2.	Cynllun prosiect	3
3.	Effeithiolrwydd Cyflawni'r Prosiect	2
4.	Deilliannau ac effaith	9
5.	Casgliadau ac argymhellion	14

---

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Comisiynwyd York Consulting LLP gan Cadwyn Clwyd i werthuso Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam – menter Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) sy'n canolbwyntio ar gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau drwy fuddsoddi mewn mannau a pherthnasau cymunedol. Derbyniodd y prosiect £600,000 mewn cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac fe'i cyflawnwyd gan Cadwyn Clwyd a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam (AVOW) rhwng Mehefin 2023 a Rhagfyr 2024.

Roedd y fethodoleg gwerthuso'n ymdrin ag adolygiad o ddogfennau allweddol, dadansoddiad o wybodaeth rheoli, ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol a rheolwyr grant, ac arolwg o dderbynwyr grantiau, yna cyfweiliadau manwl gyda detholiad o'r rheiny wnaeth dderbyn grantiau.

## Cynllun Prosiect

Darparodd Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam grantiau o rhwng £2,000 a £50,000 i grwpiau cymunedol ledled Wrecsam. Darparwyd y cyllid i brosiectau oedd â'r nod o wella gwasanaethau cyhoeddus, adfer ymdeimlad o gymuned a grymuso arweinwyr lleol a chymunedau.

Roedd grantiau bach o rhwng £2,000 a £10,000 a grantiau sylweddol o rhwng £10,000 a £50,000 ar gael. Roedd cyllid cyfalaf a refeniw ar gael i brosiectau oedd yn gwella cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau chwaraeon a mannau gwyrdd, ynghyd â chefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy, seilwaith digidol a gweithgareddau diwylliannol.

Yn ychwanegol i'r cyllid grant, roedd y prosiect yn cynnig cymorth cofleidiol, gan gynnwys arweiniad gyda cheisiadau a phrosesau caffael. Darparwyd y cymorth hwn gan ddau Swyddog Prosiect, un o Gadwyn Clwyd ac un o AVOW.

## Cyflawni Prosiect

Cafodd Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam ei hyrwyddo drwy rwydweithiau presennol Cadwyn Clwyd ac AVOW, yn ogystal â chyfathrebu wedi'i dargedu tuag at grwpiau cymunedol sydd ar waith ledled Wrecsam. Roedd gwaith hyrwyddo'r Gronfa yn amlwg yn effeithiol, gyda'r nifer o ddatganiadau o ddiddordeb a dderbyniwyd (57) dros ddwbl y nifer o grantiau a ddyfarnwyd (28).

Roedd cynrychiolwyr o Cadwyn Clwyd, AVOW a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhan o'r panel cyllid grant a bu iddyn nhw ddyfarnu'r cyllid grant i brosiectau a oedd yn dangos y gwerth orau am arian o ran cyflawni nodau'r Gronfa Allweddol. Cafodd pedair ar bymtheg o'r 47 cais eu gwrthod, yn fwyaf cyffredin oherwydd diffyg tystiolaeth o fudd i'r gymuned neu bryderon ynghylch eu cydymffurfiad gyda blaenoriaethau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Yn wir roedd y cymorth cofleidiol gan swyddogion prosiect yn annatod i helpu mudiadau llai a/neu lai profiadol i fanteisio ar y cyllid a chyflawni eu brosiectau, yn enwedig lle'r oedd

angen cymorth gyda chaffael. Agwedd arall a wnaeth sicrhau llwyddiant y prosiectau oedd hyblygrwydd Cadwyn Clwyd ynghylch ad-dalu cyllid.

Y brif her ar gyfer y swyddogion prosiect a'r derbynwyr grantiau oedd yr amserlen cyflawni byr. Byddai cyfnod ymgeisio hirach wedi bod yn fodd i gynnig rhagor o gymorth i fudiadau cymunedol, tra byddai cyfnod cyflawni hirach wedi cynnig mwy o hyblygrwydd yng ngwyneb prosiectau wedi'u gohirio.

Llwyddodd y Gronfa Allweddol i ragori ar ei dargedau allbynnau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda dros 99% o'r gyllideb grant wedi'i wario i gynnig cymorth ariannol ac anariannol i 27 mudiad (o gymharu â tharged o 18). Cafodd cyfanswm o 24 cyfleuster eu creu neu eu gwella, o gymharu â tharged o 18, a bu i'r Gronfa Allweddol ragori ymhell ar y targed ar gyfer faint o ofod gwyrdd neu las cafodd eu creu neu eu gwella (16,220m<sup>2</sup> o gymharu â tharged o 30m<sup>2</sup>).

## **Deilliannau**

Llwyddodd Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam i ragori ar ei thargedau deilliannau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda gwell canfyddiad o gyfleusterau yn 11,201 o gymharu â tharged o 180 a'r nifer uwch o ddefnyddwyr cyfleusterau'n 3,806 o gymharu â tharged o 180.

At hyn, cafodd llwyddiant Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam ei adlewyrchu yn sylwadau'r rheiny wnaeth dderbyn grantiau. Yn yr ymgynghoriadau ansoddol, adroddodd y rheiny wnaeth dderbyn grantiau gynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr, gwell hygyrchedd ar gyfer pobl yn y gymuned a gwelliannau i sgiliau pobl ifanc, ymhlith effeithiau ychwanegol eraill.

Cafodd y cyllid effaith benodol ar hybu grwpiau cymunedol i fod yn sero net, lleihau eu costau ynni a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. Fe wnaeth y cyllid grant gynorthwyo grwpiau cymunedol i sicrhau bod eu cyfleusterau'n fwy hygyrch i'r gymuned a sicrhau eu hirhoedledd yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw.

## **Casgliadau ac argymhellion**

Yn gyffredinol, bu cyflwyniad Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam yn effeithiol, gyda'r holl dargedau allbynnau a deilliannau wedi'u rhagori arnyn nhw. Bu i'r buddiolwyr gyfeirio at y prosiect yn gadarnhaol ac maen nhw wedi gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd. Llwyddodd y Gronfa Allweddol i fodloni ei nodau a nodwyd o gynnig cyfleoedd eang, gan adfer ymdeimlad o gymuned a grymuso arweinwyr lleol a chymunedau.

Bu i ganfyddiadau'r gwerthusiad lywio ystod o argymhellion yn ymwneud â'r prosiect yn benodol, yn bennaf ynghylch y broses ymgeisio.

# 1. Cyflwyniad a Methodoleg

Comisiynwyd York Consulting LLP gan Cadwyn Clwyd i werthuso Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam – prosiect sy'n canolbwyntio ar gryfhau gwead cymdeithasol cymunedau drwy fuddsoddi mewn mannau a pherthnasau cymunedol.

Derbyniodd y prosiect £600,000 gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF). Nod y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU gwerth £2.6 biliwn ydy meithrin balchder mewn lle a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU, drwy fuddsoddi mewn tri maes blaenoriaeth:

- Cymunedau a lle.
- Cymorth i fusnesau lleol.
- Pobl a sgiliau.

Nod prosiect Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam oedd cyflawni'r flaenoriaeth buddsoddi mewn cymunedau a lle drwy gynnig cyllid cyfalaf a referniw i brosiectau oedd yn awyddus i gryfhau seilwaith cymunedol a chyflawni prosiectau cymunedol oedd yn canolbwyntio ar fanteisio ar wasanaethau ac uchelgeisiau sero net.

Amcanion y gwerthusiad oedd asesu cyflawniad Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam ac adolygu'r cynnydd o gymharu â'i ganlyniadau a'i effeithiau arfaethedig.

## Methodoleg

Roedd y fethodoleg gwerthuso'n ymdrin ag adolygiad o ddogfennau allweddol, dadansoddiad o wybodaeth rheoli, ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid allweddol a rheolwyr grant, ac arolwg o dderbynwyr grantiau, yna cyfweiliadau manwl gyda detholiad o'r rheiny wnaeth dderbyn grantiau.

## Adolygu Dogfennau

Cynhaliwyd adolygiad o'r dogfennau i lywio'r gwaith maes gyda rhanddeiliaid a'r derbynwyr grantiau. Cafodd y dogfennau canlynol eu hadolygu:

- Dogfennau cais Cronfa Ffyniant Gyffredin Cadwyn Clwyd.
- Deunydd hyrwyddo ar gyfer y Gronfa Allweddol, ffurflenni cais a dogfennau canllaw.
- Dulliau casglu data a ddatblygwyd ar gyfer monitro allbynnau, deilliannau ac effaith.

Cafodd y doethineb a fanteisiwyd arno yn sgil y broses adolygu dogfennau a'r cyfarfod cychwynol ei meithrin yn y model rhesymeg ar gyfer Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam.

## Dadansoddiad o'r wybodaeth rheoli

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r wybodaeth rheoli er mwyn deall perfformiad y prosiect o gymharu â'r targedau. Adolygwyd y canlynol ynghlwm â hyn:

- Ceisiadau grant.
- Cofnodion cyfarfodydd y panel dyfarnu grantiau.
- Adroddiadau cynnydd chwarterol.

- Ffurflenni hawlio prosiectau a derbynwyr grantiau.

### Gwaith maes

Mae tabl 1.1 yn crynhoi'r gwaith maes a gwblhawyd yn ystod gwerthusiad Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam rhwng Hydref 2023 a Rhagfyr 2024.

**Tabl 1.1: Crynodeb o'r gwaith maes sydd wedi'i gwblhau**

Elfen	Gwaith maes
Ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid	Ymgynghoriadau gyda swyddogion prosiect o Cadwyn Clwyd (1) ac AVOW (2).
Arolwg o dderbynwyr grantiau	Dosbarthwyd i 28 o dderbynwyr grantiau. Derbyniwyd 26 ymateb (cyfradd ymateb o 93%) gyda 22 yn cytuno i gymryd rhan mewn ymgynghoriad dilynol.
Cyfweliadau gyda derbynwyr grantiau	Cwblhawyd 14 cyfweliad gyda derbynwyr grantiau, gan gynnwys 7 derbyniwr grantiau bach a 7 derbyniwr grantiau sylweddol.

## 2. Cynllun Prosiect

Darparodd Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam grantiau o rhwng £2,000 a £50,000 i grwpiau cymunedol yn Wrecsam. Cyflawnwyd y prosiect gan Cadwyn Clwyd – Asiantaeth Datblygu Gwledig sy'n cynnig arweiniad a chymorth i ddatblygu ac arallgyfeirio'r economi cefn gwlad yng Ngogledd Cymru – ar y cyd â Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol yn Wrecsam (AVOW) – Cyngor Gwirfoddol Sirol dros Wrecsam a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi sefydliadau trydydd sector. Cyflawnwyd y prosiect rhwng Mehefin 2023 a Rhagfyr 2024, a'i nod oedd:

- Cynnig cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y mannau hynny lle roedden nhw'n fwyaf gwan.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn mannau lle mae hyn wedi'i golli.
- Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn mannau lle mae diffyg asiantaeth leol.

Roedd dau fath o grant ar gael: grantiau bach o rhwng £2,000 a £10,000 a grantiau mawr o rhwng £10,000 a £50,000. Gallai grwpiau ymgeisio am gyllid cyfalaf a refeniw i gefnogi prosiectau cymunedol sy'n cynnig y canlynol:

- Darparu mannau cymunedol i grwpiau cymdeithasau sifil a chymunedol lleol eu defnyddio.
- Galluogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff o dan berchnogaeth leol.
- Creu a gwella mannau gwyrdd cymunedol lleol, gerddi cymunedol, cyrsiau dŵr a chorlannau.
- Cyflwyno a chefnogi gweithgareddau celfyddydau, treftadaeth a chreadigol lleol o dan arweiniad y gymuned.
- Cynnig mynediad i wasanaethau drwy gyfleusterau chwaraeon lleol.
- Darparu seilwaith digidol o fewn asedau a chyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned.


Roedd ystod o fudiadau'n gymwys i ymgeisio, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol, cynghorau cymunedol a chynghorau tref, elusennau cofrestredig, mentrau cymdeithasol, Cwmnïau Mentrau Cymunedol, ymddiriedolaethau datblygu a chydweithfeydd. Yn ogystal â chynnig cyllid grant, bu i'r prosiect gynnig cymorth cofleidiol, gan gynnwys cymorth ac arweiniad gan swyddogion i helpu grwpiau cymunedol i fanteisio ar y gronfa a chyflawni eu prosiectau.

### Model Rhesymeg

Datblygwyd model rhesymeg y prosiect (Ffigwr 2.1) gan York Consulting a chafodd ei lywio gan adolygiad o ddogfennau'r prosiectau a sgysiau gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae'n nodi'r gweithgareddau, yr allbynnau, y deilliannau ac effeithiau'r prosiect a fwriadwyd. Defnyddiwyd y model rhesymeg i ddatblygu cwestiynau'r gwerthusiad a wnaeth lywio cynllun adnoddau ymchwil y gwerthusiad a dadansoddiad o ddata'r prosiect.

**Ffigwr 2.1: Model Rhesymeg Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam**

## Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam







## Dangosyddion cynnydd allweddol

Mae'r dangosyddion cynnydd allweddol sydd wedi'u nodi yng nghais Cronfa Ffyniant Gyffredin Cadwyn Clwyd wedi'u cyflwyno yn y tablau canlynol. Maen nhw'n cynnwys allbynnau a deilliannau targed, ynghyd â gwariant prosiectau.

**Tabl 2.1: Allbynnau y cynlluniwyd**

Dangosydd Allbynnau	Targed
Nifer y mudiadau sy'n derbyn grantiau	18
Nifer y mudiadau sy'n derbyn cymorth anariannol	18
Nifer y cyfleusterau sydd wedi'u creu neu eu gwella	18
Cyfanswm y gofod gwyrdd neu las sydd wedi'i greu neu ei wella (m <sup>2</sup> )	30

*Ffynhonnell: Cais Cronfa Ffyniant Gyffredin Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam Cadwyn Clwyd*

**Tabl 2.2: Deilliannau y cynlluniwyd**

Dangosydd deilliannau	Targed
Gwell canfyddiad o gyfleuster / seilwaith (nifer o bobl)	180
Cynnydd yn nefnyddwyr y cyfleusterau / amwynderau	180

*Ffynhonnell: Cais Cronfa Ffyniant Gyffredin Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam Cadwyn Clwyd*

## Cyllideb y Prosiect

Dyfarwyd £600,000 o gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin i'r prosiect. Mae Tabl 2.3 yn nodi sut y dyrannwyd cyllideb y prosiect a gynlluniwyd.

**Tabl 2.3: Cyllideb prosiect Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam**

Cost	Swm
Grantiau cronfeydd allweddol	£500,000
Staff cyflenwi prosiect - AVOW	£33,150
Staff cyflenwi prosiect – Cadwyn Clwyd	£33,150
Marchnata a chyhoeddusrwydd	£1,700
Gorbenion - llety (AVOW a Cadwyn Clwyd)	£8,000
Rheoli, gweinyddu a gwerthuso prosiect	£24,000
Cyfanswm	<b>£600,000</b>

*Ffynhonnell: Cais Cronfa Ffyniant Gyffredin Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam Cadwyn Clwyd*

## 3. Effeithiolrwydd o ran cyflawni'r prosiect

### Rheoli grantiau

#### Staffio

Cafodd prosiect Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam ei oruchwylio gan Swyddog Prosiect o Cadwyn Clwyd, gyda chymorth gan Swyddog Prosiect o AVOW. Bu i banel grantiau, sef cynrychiolwyr o Cadwyn Clwyd, AVOW a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam adolygu'r ceisiadau oedd wedi'u cyflwyno a gwneud penderfyniadau ynghylch y dyfarniadau grant.

#### Hyrwyddo ac ymgysylltu cychwynnol

Bu i Cadwyn Clwyd ac AVOW eill dau gefnogi gwaith hyrwyddo'r gronfa drwy gysylltu gyda'u rhwydweithiau presennol o fudiadau cymunedol, gan gynnwys y rheiny roedden nhw wedi cydweithio gyda nhw'n flaenorol. Aeth y ddau fudiad ati hefyd i hyrwyddo'r cyllid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bu profiad AVOW yn cydweithio gyda grwpiau cymunedol llai, lleol o ledled Wrecsam yn fodd i fudiadau llai profiadol fanteisio ar y cyllid. Cwblhaodd AVOW ymarfer mapio o fudiadau yn yr ardal leol i allu rhannu cyfathrebu wedi'i dargedu gyda grwpiau y tu hwnt i rwydwaith presennol AVOW, gan sicrhau lledaeniad daearyddol eang o geisiadau. Bu i'r ddau fudiad cyflawni hefyd gydweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i osgoi dyblygu prosiectau wedi'u cefnogi drwy gronfa debyg gysylltiedig â chymunedau a lle yr oedd yr awdurdod lleol yn ei rheoli.

O'r 14 o dderbynwyr grantiau a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad, fe wnaeth y rhan helaeth (9) glywed am y cyllid drwy eu cysylltiadau gydag AVOW, tra bu i ddim ond un grŵp cymunedol sôn eu bod nhw wedi dysgu am y cyllid drwy Cadwyn Clwyd. Fe wnaeth y grwpiau oedd yn weddill grybwyll rhwydweithiau eraill, gan gynnwys Hwb Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru a chysylltiadau o fewn CBS Wrecsam.

Roedd gwaith hyrwyddo Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam yn amlwg yn effeithiol, gyda'r gronfa yn derbyn dros ddwbl y nifer o Ddatganiadau o Ddiddordeb na'r grantiau a ddyfarnwyd (manylion pellach isod).

#### Mynegi diddordeb ac ymgeisio


Gofynnwyd i'r grwpiau cymunedol am gwblhau datganiad o ddiddordeb cychwynnol, gyda chyfnod cyflwyno o dair wythnos yn dilyn cyfnod o gymorth gan ddau swyddog prosiect. Cafodd y Datganiadau o Ddiddordeb eu hasesu gan ddau aelod o'r panel cyllid grant (un aelod o Cadwyn Clwyd ac un o AVOW). Ar gyfer y rownd gyntaf o gyllid, derbyniwyd 57 Datganiad o Ddiddordeb, ac fe wahoddwyd 39 o'r rheiny i gyflwyno cais.

Roedd cymorth ar gael gan Cadwyn Clwyd ac AVOW ar gyfer grwpiau cymunedol oedd â dim ond ychydig o brofiad o gwblhau ceisiadau grant. Bu i'r swyddogion prosiect gynnig arweiniad i'r mudiadau hyn a'u cefnogi i wneud gwelliannau i'w ceisiadau, a oedd yn gyfle i grwpiau cymunedol llai a llai profiadol allu ymgeisio'n llwyddiannus am y grantiau. O ganlyniad i'r cymorth hwn, bu i'r swyddogion prosiect hybu eu gwybodaeth am y prosiectau a oedd yn ei dro yn gyfle iddyn nhw ateb unrhyw ymholiadau gan y panel yn ystod cyfarfodydd y panel cyllid grant.

Derbyniodd y panel cyllid grant 35 o geisiadau yn ystod y rownd ariannu cyntaf, gan gymeradwyo 23 prosiect i dderbyn cyllid. Yn dilyn y dyfarniadau grant o'r rownd ariannu cyntaf, roedd £60,000 mewn cyllid cyfalaf heb ei neilltuo. Gan hynny, fe gynhaliwyd yr ail rownd o geisiadau yn dilyn cwblhau'r prosesau caffael o'r rownd gyntaf, gan dderbyn 14 cais pellach. Cafodd 5 o'r rheiny eu cymeradwyo.

Fel y dangosir yn Ffigwr 3.1, roedd mwyafrif o ymatebwyr yr arolwg (16/26) o'r farn bod y broses ymgeisio naill ai'n rhwydd dros ben (1) neu'n weddol rwydd (15). Mae hyn yn gadael lleiafrif sylweddol a oedd yn teimlo bod y broses ymgeisio naill ai'n weddol anodd (6) neu'n anodd iawn (4). Ymhlith y rhesymau cyffredin dros anawsterau yn ystod y proses ymgeisio roedd cwestiynau wedi'u dyblygu neu'n gorgyffwrdd a'r diffyg cais byrrach am grantiau llai. Roedd y rheiny oedd yn brofiadol gyda cheisiadau grant yn dueddol o weld y broses yn haws, sy'n amlgu pwysigrwydd y cymorth ymarferol ychwanegol hwn i gynnig cyfle i fudiadau llai, llai profiadol i fanteisio ar y cyllid.

**Ffigwr 3.1: Rhwyddineb y broses ymgeisio**



*Ffynhonnell: Arolwg o dderbynwyr grantiau (n=26)*

### Proses dyfarnu

Cafodd ceisiadau eu cyflwyno i banel y grŵp llywio, gyda chynrychiolwyr o Cadwyn Clwyd (1), AVOW (2) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (1). Roedd y ddau swyddog prosiect hefyd yn aelodau o'r panel ond nid oedd hawl ganddyn nhw bleidleisio. Cyn y cyfarfod, aeth aelodau'r panel ati i sgorio pob cais o ystyried yr agweddau canlynol:

- Cyfraniad tuag at flaenoriaethau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Ymgysylltiad Cymunedol
- Allbynnau a deilliannau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU
- Gwerth am arian

Yn dilyn hynny, trafodwyd prosiectau uwchlaw trothwy penodol yn y cyfarfodydd panel. O'r 49 cais a dderbyniwyd, ni chafodd 21 eu cymeradwyo. Cafodd nifer o'r ceisiadau hyn na chafodd eu cymeradwyo eu barnu'n hyfyw ond buon nhw'n aflwyddiannus yn sgil ceisiadau cryfach yn ystod y broses gystadleuol oedd wedi'i or-danysgrifio. Dyma rai o'r rhesymau cyffredin pam na chafodd y prosiectau eu cymeradwyo:

- Diffyg tystiolaeth o gostau neu gymorth cymunedol.
- Pryderon ynghylch cydymffurfiaeth gyda blaenoriaethau, allbynnau a deilliannau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- Wedi derbyn cyllid grant eisoes gan ffynonellau eraill.

- Pryderon ynghylch cynaliadwyedd ar ôl derbyn cyllid.

Cafodd sawl prosiect yn yr ail rownd o geisiadau grant, a oedd yn arbennig o gystadleuol, eu canmol gan y panel grantiau ond nodwyd bod angen cymorth pellach arnyn nhw cyn iddyn nhw fod yn gymwys am gyllid. Mae AVOW wedi cynnig eu cymorth i un grŵp cymunedol i ddatblygu strwythur llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth ar gyfer ceisiadau grant yn y dyfodol.

### **Cymorth gyda chyflwyno prosiectau**

Fe wnaeth y swyddogion prosiect barhau i gefnogi'r derbynwyr grantiau drwy gydol cyfnod cyflwyno'r prosiectau, ac roedd yn amlwg bod y derbynwyr grantiau'n ddiolchgar am hyn. Roedd ymatebion i'r arolwg yn dangos fod pob un o'r farn bod y cymorth gan Cadwyn Clwyd naill ai'n ddefnyddiol dros ben (23/26) neu'n weddol ddefnyddiol (3/26), a bu i'r cyfweleion ganmol y swyddogion prosiect am eu hymatebolrwydd.

Fe rannodd y swyddogion prosiect y prosiectau'n seiliedig ar faint y grant, gydag AVOW yn cefnogi'r grantiau llai a Cadwyn Clwyd yn cefnogi'r grantiau mwy. Darparodd Cadwyn Clwyd gymorth caffael i'r mudiadau hynny oedd ei angen, gan gyflenwi templedi contractau, drafftio manylebau ac uwch lwytho tendrau i Sell2Wales. Mae'r adborth gan y cyfweleion yn dynodi bod y cymorth caffael hwn wedi'i werthfawrogi'n arbennig gan y rheiny wnaeth dderbyn grantiau mwy, gyda'r derbynwyr grantiau hyn yn adrodd na fyddan nhw wedi teimlo'n hyderus yn rheoli'r broses gaffael heb y cyngor a'r cymorth gan Cadwyn Clwyd.

***"Roeddwn i dros y trothwy ac roedd rhaid imi ei roi [y prosiect] allan i'w dendro. Ni allwn fod wedi gwneud hynny fy hun – roedd y cymorth yn hanfodol." – Derbyniwr Grant.***

Roedd y derbynwyr grantiau hefyd yn gwerthfawrogi hyblygrwydd Cadwyn Clwyd o ran rhyddhau'r cyllid grant, gyda chyllid yn cael ei ryddhau ymlaen llaw lle'r oedd gwir angen amdano. Roedd hyn yn gyfle i grwpiau cymunedol gydag arian parod wrth gefn cyfyngedig gwblhau prosiectau mwy uchelgeisiol na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall.

## Astudiaeth Achos 1 – Agri-Cation CIC

Mae Agri-Cation yn cynnig addysg ffermio i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol a gwrthodwyr ysgol. Caiff rhai gweithgareddau eu cyflawni mewn ystafell ddosbarth yn yr awyr agored, a allai fod yn oer iawn yn y gaeaf. Ar ôl i'r grant gael ei argymhell gan AVOW, fe wnaeth Agri-Cation ymgeisio am gyllid grant i osod ffenestri, drysau a llogswr coed yn yr ystafell ddosbarth yn yr awyr agored i gadw'r lle'n gynnes yn ystod misoedd y gaeaf.

O ganlyniad i greu'r gofod cynnes hwn bu modd i Agri-Cation gynnig cyfleoedd newydd i'r gymuned, gan gynnwys sesiynau ioga sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn a choginio yn yr awyr agored gan ddefnyddio'r llogswr coed. Bellach mae 'Wellness in Wellies', rhaglen Agri-Cation i gefnogi pobl sydd wedi wynebu trawma, yn gweithio gyda grŵp cwnsela lleol i ddarparu sesiynau therapi anifeiliad. Mae'r defnydd cynyddol o'r gofod dysgu yn yr awyr agored hefyd yn cynnig incwm ychwanegol, y mae Agri-Cation yn bwriadu ei ail-fuddsoddi yn y cyfleusterau i wneud gwelliannau pellach yn y dyfodol.

## Allbynnau

Fel y dangosir yn Nhabl 3.1, bu i'r prosiect ragori ar ei holl allbynnau targed, gyda 27 mudiad yn derbyn cyllid grant a chymorth anariannol o gymharu â tharged o 18<sup>1</sup>. Rhagorwyd ar y targed o greu neu wella 18 cyfleuster hefyd (24). At hyn, rhagorwyd ymhell ar y targed o ran creu neu wella mannau gwyrdd neu las (16,220m<sup>2</sup> o gymharu â tharged o 30m<sup>2</sup>), gyda'r rhan fwyaf o'r cynnydd hyn wedi'i gyflawni gan ddau brosiect a oedd yn canolbwyntio ar adfer mannau awyr agored.

**Tabl 3.1: Cynnydd o'i gymharu â'r allbynnau y cynlluniwyd**

Dangosydd allbynnau	Targed	Nifer Gwirioneddol
Nifer y mudiadau sy'n derbyn grantiau	18	27
Nifer y mudiadau sy'n derbyn cymorth anariannol	18	27
Nifer y cyfleusterau sydd wedi'u creu neu eu gwella	18	24
Cyfanswm y gofod gwyrdd neu las sydd wedi'i greu neu ei wella (m <sup>2</sup> )	30	16,220

*Ffynhonnell: Ffurflen hawlio Cronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam Chwefror 2025*

Mae Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam wedi cefnogi ystod eang o fudiadau, o gynghorau cymuned, elusennau cerddoriaeth a chelfyddydau, mudiadau chwaraeon, canolfannau plant a mwy. Mae'r cyllid grant hefyd wedi cefnogi amrywiaeth o wahanol brosiectau, gan sicrhau bod yr ystod fwyaf eang posibl o drigolion yn Wrecsam yn elwa o'r cyllid. Gellir rhannu'r prosiectau a ariannwyd i'r categorïau fel a ganlyn:


- Gwelliannau i fannau awyr agored (11 prosiect)
- Gwelliannau i eglwysi neu neuaddau pentref (8 prosiect)

<sup>1</sup> Dyfarnwyd 28 grant, gydag un mudiad yn derbyn dau grant ar wahân.

- Prosiectau diwylliannol, gan gynnwys rhai'n ymwneud â cherddoriaeth a'r celfyddydau (5 prosiect)
- Gwelliannau i gyfleusterau cymunedol eraill (3 prosiect)
- Ariannu cyngor ar leihau carbon i grwpiau cymunedol (1 prosiect)

O fewn cyllideb y grant, roedd tanwariant bach o 3,519.89, gyda £496,480.11 wedi'i wario o £500,000. Mae ffigwr 3.1 yn amlinellu dosbarthiad y swm a ddyfarnwyd i bob grŵp cymunedol. Roedd angen llai na swm llawn y grant bach neu fawr ar nifer o'r prosiectau a gafodd eu cefnogi, sy'n golygu roedd modd cefnogi nifer fwy o fudiadau gyda symiau llai o gyllid fesul grant na'r hyn a ragwelir i ddechrau.

### Ffigwr 3.2: Dosbarthiad y prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo yn ôl gwerth



Ffynhonnell: Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam – Allbynnau a deilliannau Chwefror 2025

Mae ffigwr 3.2 yn dangos lledaeniad daeryddol y prosiectau sydd wedi'u hariannu gan Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam. Mae dosbarthiad y prosiectau'n dangos fod cymunedau ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'u cefnogi. Does dim ffocws penodol ar Ddinas Wrecsam (8 prosiect), gyda'r prosiectau'n weddill wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled y Sir.

### Ffigwr 3.2: Dosbarthiad daeryddol y prosiectau<sup>2</sup>

<sup>2</sup> Sylwch nad oedd modd nodi lleoliadau penodol ar gyfer dau o'r prosiectau. Mae Gofalwyr Ifanc WCD yn cyflawni ei raglenni ledled Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych ac mae ei brosiect Disgo Distaw wedi'i gyflawni ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn yr un modd, mae Celfyddydau Paallam yn cyflawni eu gweithgareddau ledled Bwrdeistref Sirol Wrecsam.



Ffynhonnell: Dadansoddiad YCL o fudiadau wedi'u hariannu, Chwefror 2025.

## Heriau a galluogwyr

Dyma rai o'r heriau a ddisgrifiwyd gan randdeiliaid a buddiolwyr Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam:

- Graddfeydd amser byr:** Bu i'r swyddogion prosiect a'r derbynwyr grantiau fel ei gilydd nodi bod graddfeydd amser byr – yn ystod y camau ymgeisio a chyflawni – yn heriol. Byddai cyfnod ymgeisio estynedig wedi darparu mwy o amser i Cadwyn Clwyd ac AVOW i gefnogi mudiadau gyda'u ceisiadau grant, gan o bosib olygu bod llai o geisiadau'n cael eu nodi fel rhai wedi'u tan-ddatblygu.
- Cymesuredd prosesau ymgeisio am grantiau a hawliadau:** Roedd rhai o'r derbynwyr grantiau o'r farn bod hyd y ffurflen gais ac ehangder y prosesau monitro a hawliadau yn anghymesur â'r cyfanswm o gyllid grant wnaethon nhw ei dderbyn. Cafodd dyblygu gwybodaeth yn y broses ymgeisio ei amlygu gan leiafrif o dderbynwyr grantiau yn y cyfweiliadau ansoddol, ac roedd rhai o'r farn bod y broses fonitro a hawliadau'n rhy feichus lle'r oedd nifer uchel o gynnyrch wedi'u prynu gyda'r cyllid grant. Yr awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer gwella prosesau'r grant oedd cynhyrchu mwy o ganllawiau ar gyfer y broses ymgeisio, drwy greu cais enghreifftiol neu ganllaw ar gyfer cwblhau'r ffurflenni.

***"Gallai fod wedi bod gwahanol lefelau gwahanol o fonitro yn dibynnu ar y cyfanswm a ddyfarnwyd" – Derbyniwr Grant.***

Ymhlith y galluogwyr a ddisgrifiwyd gan randdeiliaid a buddiolwyr Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam roedd:

- Cymorth cofleidiol:** Roedd y derbynwyr grantiau'n amlwg yn gwerthfawrogi'r cymorth gan y swyddogion prosiect drwy gydol y broses ymgeisio a chyflawni'r prosiect. O'r derbynwyr grantiau wnaeth ymateb i'r arolwg, roedd pob un ohonyn nhw o'r farn bod y cymorth gan Cadwyn Clwyd naill ai'n ddefnyddiol dros ben (23/26) neu'n weddol ddefnyddiol (3/26). Mae'r adborth o'r cyfweiliadau'n dangos bod y cymorth wedi galluogi rhai â llai o brofiad o ymgeisio am grantiau i fanteisio ar a gwneud defnydd llawn o'r cyllid. Cafodd mudiadau



gyda grantiau mwy eu cefnogi drwy'r broses gaffael, tra bod y rheiny gyda llif arian cyfyngedig yn gallu derbyn eu grant ymlaen llaw neu gael ei ad-dalu fesul dipyn.

***"Fe wnaethon nhw gynnig llawer iawn o gymorth imi. Roedden nhw bob amser ar gael pan roedd angen adnoddau ychwanegol arna i. Byddai wedi bod yn amhosibl heb eu cymorth nhw."* – Derbyniwr Grant**

- **Perthnasau partner:** Bu'r perthynas gwaith cryf rhwng Cadwyn Clwyd ac AVOW hwyluso cyflwyniad llwyddiannus, a oedd yn hollbwysig o ystyried y graddfeydd amser byr. Cafodd y prosesau, dogfennau perthnasol a'r gweithgarwch hyrwyddo eu pennu'n gyflym ar gychwyn y prosiect. O ganlyniad roedd digonedd o amser i fudiadau cymunedol ymgeisio am y gronfa a chyflawni eu prosiectau. At hyn, cydweithiodd y ddau bartner cyflawni'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i osgoi dyblygu prosiectau wedi'u cefnogi drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin tebyg oedd yn gysylltiedig â chymunedau a lle yr oedd yr Awdurdod Lleol yn ei rheoli.
- **Hyrwyddo:** Cafodd y gronfa ei hyrwyddo'n eang ac yn effeithiol, gwelwn dystiolaeth o hyn o'r 58 datganiad o ddi-ddordeb (gyda tharged cychwynnol o 18 dyfarniad). Yn amlwg mae gan AVOW a Cadwyn Clwyd eill dau berthnasau cryf gyda grwpiau cymunedol lleol a wnaeth alluogi'r lefel hwn o ymgysylltiad gyda'r gronfa. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n deillio o bob cwr o Wrecsam, fe wnaeth y swyddogion prosiect dargedu cyfathrebu y tu hwnt i'w rhwydweithiau presennol i fudiadau ledled y fwrdeistref.

## 4. Deilliannau ac effaith

### Cynnydd o gymharu â deilliannau targed

Fel y dangosir yn Nhabl 4.1, roedd y targedau ar gyfer y nifer o ddefnyddwyr newydd a'r nifer o ddefnyddwyr gyda gwell canfyddiad o'r cyfleusterau oedd wedi'u cefnogi gan y cyllid grant wedi'u rhagori arnyn nhw'n sylweddol. Mae'r ffigwr ar gyfer y deiliant gwell canfyddiad yn seiliedig ar y nifer o bobl wnaeth y mudiadau eu hadrodd fel rhai a oedd yn defnyddio'r cyfleuster / seilwaith yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na data oedd yn mesur canfyddiadau dros amser. Mae hefyd yn bwysig nodi bod dau brosiect yn cyfrif am 7,690 o gyfanswm nifer y bobl gyda gwell ganfyddiadau o'r cyfleusterau. Serch hynny, mae'r deilliannau a gyflawnwyd yn sylweddol uwch na'r hynny a ragwelwyd yn wreiddiol, gan ddangos cyrhaeddiad eang y cyllid. Efallai bod y nifer mwy na'r disgwyl o brosiectau a wnaeth dderbyn cefnogaeth (gweler Tabl 3.1) hefyd wedi cyfrannu tuag at lwyddiant o gymharu â'r deilliannau a gynlluniwyd, gyda mwy o ddefnyddwyr yn gallu manteisio ar fwy o gyfleusterau wedi'u cefnogi.

**Tabl 4.1: Cynnydd o gymharu â'r deilliannau a gynlluniwyd**

Dangosydd deilliannau	Targed	Swm Gwirioneddol
Gwell canfyddiad o gyfleuster / seilwaith (nifer y bobl)	180	11,201
Cynnydd yn nefnyddwyr y cyfleusterau / amwynderau	180	3,806

*Ffynhonnell: Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam – ffurflen hawlio y Gronfa Ffyniant Gyffredin Chwefror 2025*

### Effaith y cyllid

Ategwyd y llwyddiant o gymharu â'r targedau deilliannau trwy'r arolwg o dderbynwyr grantiau, gyda mwy o ymgysylltiad a chynnydd yn ansawdd profiadau i ddefnyddwyr ymhlith y prif effeithiau wnaeth y derbynwyr grantiau eu nodi:

- Mwy o gyfleoedd ar gyfer mudiadau / aelodau cymunedol (8)
- Cynnydd yn ansawdd profiadau i aelodau'r gymuned (8)
- Gwell gweithrediad o ran eich mudiad (3)
- Mwy o ymdeimlad o ysbryd cymunedol (2)
- Mwy o aelodau / pobl yn cymryd rhan yn y mudiad (2)
- Mwy o gyfleoedd i aelodau'r gymuned (2)

Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg nodi prif effaith y cyllid drwy ddewis un opsiwn yn unig o'r rhestr uchod. Mae adborth y cyfweliadau'n awgrymu fod y cyllid wedi cael ystod o effeithiau ar sawl prosiect, megis cynyddu'r cyfleoedd i'r rheiny oedd eisoes yn cymryd rhan ynghyd â chynyddu nifer yr aelodau / y bobl oedd yn cymryd rhan yn y mudiad.

## Astudiaeth achos 2: Eglwys Gymunedol Llai

Argymhellodd aelod o gynulleidfa Gweinidog Eglwys Gymunedol Llai y dylid ymgeisio am Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam. Gyda'r cyllid, aethon nhw ati i gwblhau tair ffrwd o waith i wella'r neuadd gymunedol: gwaith daear allanol, tarmacio'r maes parcio, ynysu'r gofod ffordd, a throsi storfa yn gaffi.

Darparodd Cadwyn Clwyd gymorth drwy gydol y broses cyllid grant, gan gynnwys cymorth gyda'r cais a chynnig gwaith allan ar dendr.

O ganlyniad i'r gwaith, mae'r Eglwys wedi llwyddo i hybu eu presenoldeb yng nghanol y gymuned. Mae sawl rhaglen newydd wedi cychwyn ers y gwaith adfer, gan gynnwys gwaith ieuenctid, grwpiau astudio i oedolion, grwpiau pobl hŷn ac elusen yn defnyddio'r gofod ar gyfer hyfforddiant.

Ymysg effeithiau pellach y gwaith mae lleihau'r costau ariannol a charbon oedd yn gysylltiedig gyda gwresogi'r adeilad, sicrhau bod y maes parcio'n fwy hygyrch a chynyddu'r gallu i ragor o wasanaethau gael eu cynnal yn yr eglwys er mwyn ennyn diddordeb siaradwyr Cymraeg lleol.

Bu i gyfweiliadau gyda 14 o'r 28 derbynwyr grantiau gynnig cipolwg pellach ar yr effeithiau sydd wedi'u cyflawni yn sgil y cyllid. Dyma rai o'r effeithiau hynny:

- Darparu caeau chwarae lleol ar gyfer saith ysgol uwchradd yn Wrecsam ac ar draws y ffin, gan allu cynnig gwersi Ymarfer Corff o safon uwch i ddisgyblion lleol.
- Uwchsgilio gofalwyr ifanc i gynnal sesiynau disgo distaw fel rhan o fenter gymdeithasol, gan gyfuno digwyddiadau cymdeithasol gydag ymdeimlad o berchnogaeth a sgiliau gwell i ofalwyr ifanc.
- Hybu hygyrchedd, diogelwch a chysur mewn cyfleusterau cymunedol, gan sicrhau mwy o bresenoldeb a phresenoldeb parhaol mewn digwyddiadau newydd a phresennol mewn cyfleusterau cymunedol.
- Galluogi mudiadau i ddatblygu darluniau a chostau technegol tuag at gais cynllunio i adfer adeilad.
- Cyfleoedd cymorth newydd i grwpiau bregus, gan gynnwys therapi anifeiliaid, perthynas cryfach gyda grŵp trais yn y cartref, a gwella cyfleusterau cegin banc bwyd.

***"Mae'r grant wedi rhoi hwb inni allu cychwyn arni i adfer yr adeilad." – Derbyniwr grant.***

***"Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol dros ben, ac mae wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol eisoes. Rydym wedi denu mwy o ddefnyddwyr heb os." – Derbyniwr grant***

Roedd angen amlwg am y cyllid grant yn y gymuned. Roedd y galw yn uchel, fel y nodwyd gan y prosiect yn cael ei or-danysgrifio. Bu i adborth y derbynwyr grantiau yn yr arolwg hefyd awgrymu bod y grwpiau cymunedol oedd yn cymryd rhan yn gwerthfawrogi'r cyllid yn fawr, gyda phob un o'r 26 a wnaeth ymateb i'r arolwg yn sgorio gwerth y cyllid i'w mudiad yn 'bwysig dros ben'. At hyn, dywedodd pawb a gafodd eu cyfweld na fyddai modd iddyn nhw

gyflawni eu prosiectau heb y cyllid, yn sgil naill ai dim cyllid neu gyllid cyfyngedig arall ar gael yn eu mudiad a / neu dim ffynonellau cyllid allanol eraill ar gael. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu lefel uchel o ychwanegedd a bod y prosiect wedi mynd i'r afael â diffyg amlwg o ran cyllid oedd ar gael yn Wrecsam ac ardaloedd cyfagos.

***"Ni fyddem ni wedi gallu gwneud unrhyw beth [heb y cyllid]. Roedd ein harian wrth gefn yn isel dros ben. Roedd y cyllid yn union beth oedd ei angen arnom a mwy." – Derbyniwr grant.***

### **Effaith ar yr Iaith Gymraeg**

Ni wnaeth y cyfweliadau ansoddol gyda derbynwyr grantiau amlygu cyfraniad sylweddol i hybu'r iaith Gymraeg ymhlith y prosiectau a ariannwyd. Er bod gan rhai o'r mudiadau nifer fach o aelodau sy'n siarad Cymraeg ac arwyddion neu ddeunyddiau dwyieithog eisoes, doedd dim sôn am unrhyw weithgareddau prosiect a wnaeth effeithio ar yr iaith Gymraeg yn uniongyrchol.

Serch hynny, fe wnaeth Cadwyn Clwyd fwrw iddi i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol cyflawni'r prosiect, gan gynnwys:

- Cynhyrchu deunydd hyrwyddo a chyfathrebu dwyieithog am y gronfa.
- Y swyddog prosiect, fel siaradwr Cymraeg iaith gyntaf, yn cefnogi grwpiau yn eu hiaith ddewisol.
- Cynnig cyngor i dderbynwyr grantiau ar ofynion yr iaith Gymraeg a chyfeirio grwpiau at ffynonellau cymorth eraill.

### **Effaith ar sero net**

Bu i'r cyfweliadau ddatgelu sawl prosiect a gafodd effaith ar gynydd tuag at sero net. Roedd nifer o'r prosiectau a gafodd eu hariannu yn bwriadu gwella'r defnydd o ynni mewn adeiladau cymunedol, gyda phedwar prosiect yn gwneud gwelliannau i'w systemau gwresogi neu'n gosod gwelliannau effeithiolrwydd ynni eraill. Bu i bedwar prosiect arall hefyd grybwyll y defnydd o arferion adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys aildefnyddio cynhwysydd llong a defnyddio cyflenwyr lleol.

### **Effaith ar gyfleoedd cyfartal**

Soniodd sawl o'r derbynwyr grantiau a gafodd eu cyfweld am welliant o ran cyfleoedd cyfartal o ganlyniad i'r cyllid grant. Roedd sawl un o'r prosiectau'n canolbwyntio ar rwyddineb mynediad, gan sicrhau cyfle i fwy o ddefnyddwyr gydag anghenion unigol amrywiol fanteisio ar gyfleusterau cymunedol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r derbynwyr grantiau hefyd bod y cyllid grant wedi'u helpu i gynyddu eu gallu a chadw costau'n isel, gan sicrhau modd i gymaint â phosibl o bobl fanteisio ar y gweithgareddau.

***"Mae'r prosiect wedi hybu cyfleoedd cyfartal heb os. Mae'n weithgaredd cynhwysol dros ben." – Derbyniwr grant***

## Astudiaeth achos 3 – Prosiect Disgo Distaw

Penderfynodd Flamingo Lounge Inclusive Events a Gofalwyr Ifanc WDC gydweithio i ymgeisio am grant i brynu offer disgo distaw. Fe wnaethon nhw ddysgu am y cyllid drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac fe wnaethon nhw achub ar y cyfle i gynnal y prosiect disgo distaw roedden nhw wedi bod yn cynllunio ers peth amser.

Fe wnaeth Cadwyn Clwyd gefnogi gyda'r broses ymgeisio, gan ateb unrhyw ymholiadau a chynnig adborth lle'r oedd ei angen. Fe wnaethon nhw hefyd gynorthwyo gyda heriau wnaeth y prosiect ei wynebu yn ystod yr adeg cyflawni, er enghraifft, darparu arian ymlaen llaw i brynu'r offer.

Mae'r offer disgo distaw wedi dwyn amrywiaeth o grwpiau cymunedol ac elusennau ynghyd i gynnal digwyddiadau. Mae Gofalwyr Ifanc WDC wedi cyflawni sesiynau gydag AVOW ac wedi derbyn cais gan Senedd Wrecsam i logi'r offer.

### Cyflawni yn erbyn nodau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a pholisi lleol

Roedd yn nod gan Gronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam i gydymffurfio gyda nodau canlynol Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU:

- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn y manau hynny lle roedden nhw'n fwyaf gwan.
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig mewn manau lle mae hyn wedi'i golli.
- Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau, yn enwedig mewn manau lle mae diffyg asiantaeth leol.

Yn sgil y gwaith cyflawni sydd wedi'i ddisgrifio uchod, fe lwyddodd y prosiect i fodloni'r nodau, gyda phrosiectau ledled Wrecsam (Ffigwr 3.2) yn trawsnewid cyfleusterau cymunedol a chynnig cyfleoedd newydd i aelodau cymunedau lleol. Mae'r prosiectau sydd wedi'u cefnogi wedi darparu cyfleoedd newydd a mwy niferus i drigolion Wrecsam i fanteisio ar weithgareddau cymdeithasol, addysgol, diwylliannol a chwaraeon, ynghyd â sicrhau ei fod yn fwy rhwydd i fanteisio ar wasanaethau hanfodol megis banciau bwyd.

***"Mae'r bobl sydd wedi bod yma ers tro byd yn gwerthfawrogi'r amgylchedd mwy cyfforddus." – Derbyniwr grant.***

Mae Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam hefyd yn cyd-fynd yn dda gyda blaenoriaethau strategol Cyngor Wrecsam<sup>3</sup>, yn enwedig mewn perthynas â:

- **Gwella'r amgylchedd a mynediad i fannau gwyrdd.** Er enghraifft:
  - Ariannwyd Dôl Ofalgar Erddig a Chastell y Waun i sicrhau ei fod yn fwy hygyrch, gan gynnwys cyfarpar i grwpiau gydag awtistiaeth ac ailwampio tŷ bach er mwyn i aelodau grŵp goroeswyr trais yn y cartref ei ddefnyddio. Mae hyn wedi galluogi mwy o ddefnydd o'r man gwyrdd gan amrywiaeth mwy eang o grwpiau cymunedol.
  - Ar gyfer y prosiect Pedal Power, bu i bobl leol beintio beiciau nad oedd modd eu defnyddio mwyach i'w gosod fel celfwaith mewn parc lleol, gan godi ymwybyddiaeth o

<sup>3</sup> Blaenoriaethau ein cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

waith Cycling4All yn galluogi modd i bobl anabl allu beicio. Caiff y beiciau eu defnyddio'n flynyddol ar lwybr beic addurnedig Wrecsam.

- **Gwella mynediad i gymorth a gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus.** Er enghraifft:

- Bu i brosiect Mynediad i Bawb Jubilee Beau osod giât awtomatig ger mynediad y ganolfan farchogaeth. Bu i hyn gynyddu hygyrchedd ar gyfer aelodau o'r gymuned sy'n treulio amser therapiwtig gyda'r merlod, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u hynysu neu sydd ag iechyd meddwl gwael.
- St Mark ym Mharc Caia, ardal o amddifadedd uchel, lle mae'r Eglwys yn cynnal banc bwyd a gweithgareddau i blant ar gyfer trigolion yr ardal. Mae'r prosiect wedi sicrhau bod yr adeilad yn fwy hygyrch, gan atgyweirio'r to, gwneud gwelliannau ynni effeithlon a gosod cyfleusterau cegin newydd.

- **Hyrwyddo iechyd a lles da.** Er enghraifft:

- Bu i Gerddwyr Nordig Erddig brynu cynhwysydd storio i gadw eu polion cerdded, gasebos a meinciau gwaith yn dilyn rhywun yn torri i mewn i'w cyfleuster storio blaenorol. Mae hyn wedi galluogi'r grŵp i barhau gyda'u teithiau'n ddiogel, gan hyrwyddo cadw'n heini a threchu unigrwydd ymhlith ei 280 o aelodau.
- Datblygwyd cyfleuster Chwarae Plas Kynaston i ddarparu seddi ar gyfer cae pêl-droed, adeiladu llwybr newydd ac ymestyn y cae. Mae hyn wedi cynnig cyfle i saith ysgol leol ddefnyddio'r cyfleuster ar gyfer gwersi Ymarfer Corff a gwella cyfleusterau i dimau pêl-droed lleol.

## 5. Casgliadau ac argymhellion

Cafodd Cronfa Allweddol Gymunedol Wrecsam ei rheoli'n effeithiol dros ben ar draws yr holl feysydd cyflawni. Mae hyn er gwaethaf graddfeydd amser cyflawni heriol. Cafodd y prosiect ei gyflawni'n llwyddiannus yn sgil cydweithio effeithiol rhwng Cadwyn Clwyd ac AVOW a'r cysylltiadau cryf y mae'r ddau bartner yn meddu arnyn nhw gydag ystod eang o fudiadau cymunedol lleol.

Mae'r model cymorth cofleidiol yn ychwanegu gwerth sylweddol at y broses rheoli grantiau. Roedd y derbynwyr grantiau'n amlwg yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarparwyd yn ystod proses ymgeisio a chyflawni eu prosiectau. Mae hyn wedi galluogi grwpiau a mudiadau cymunedol llai gyda phrofiad blaenorol cyfyngedig o geisiadau grant i fanteisio ar y cyllid, gan gynnwys manteisio ar grantiau mwy lle mae angen caffael gwasanaethau'n allanol.

Mae'r prosiect wedi rhagori ar ei allbynnau a deilliannau targed o ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn rhannol oherwydd y galw uchel am gyllid grant gan arwain at nifer uwch o grantiau llai yn cael eu dyfarnu na fwriadwyd yn wreiddiol. Mae'r cyllid wedi cyflawni amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ar gyfer y mudiadau sy'n cymryd rhan, fel mudiadau'n cynyddu eu cyrhaeddiad a'r ystod o gyfleoedd gallan nhw eu cynnig i aelodau cymunedol. Yn ei dro bu i hyn olygu modd i ddatblygu prosiectau ar raddfa fwy a chreu cyfleoedd ar gyfer ceisiadau cyllid grant yn y dyfodol. Mae tystiolaeth hefyd bod prosiectau wedi'u hariannu wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd cyfartal a chynnydd tuag at sero net.

Mae'n amlwg bod angen y cyllid grant yn y gymuned ac mae adborth y derbynwyr grantiau'n awgrymu lefel uchel o ychwanegedd, gyda'r prosiect yn mynd i'r afael â diffyg mewn cyllid sydd ar gael yn lleol. Mae'n amlwg wedi bodloni amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin o wella cysylltiadau corfforol, diwylliannol a chymdeithasol ynghyd â mynediad i amwynderau a phrosiectau o dan arweiniad y gymuned, gan hefyd gyfrannu tuag at flaenoriaethau strategol CBS Wrecsam.

### Argymhellion

Yn seiliedig ar y canfyddiadau sydd wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn, byddwn yn argymhell dwyn i ystyriaeth y canlynol ar gyfer unrhyw brosiectau rheoli grantiau yn y dyfodol:

- Adolygu'r broses ymgeisio i sicrhau bod y ffurflenni cais mor rhwydd a didrafferth â phosibl, gan ystyried creu ffurflenni cais byrrach pan fo mudiadau'n ymgeisio am symiau llai o gyllid.
- Llunio dogfen ganllaw i gefnogi derbynwyr grantiau arfaethedig gyda chwblhau'r ffurflen gais, gan gynnwys darparu enghreifftiau o arfer da.
- O ystyried y galw uchel am y cyllid grant a'r effeithlonrwydd o ran cyflawni, gan gynnwys y model cymorth cofleidiol, mae'n amlwg fod yna gyfle i Cadwyn Clwyd ac AVOW reoli cyllid grant mwy sylweddol yn y dyfodol. Byddai hyn yn fodd i fwy o fudiadau lleol elwa ar gymorth ariannol ac anariannol.